Datganiad

Arddangosfa

Gwyneth Ryder

ymlaen tan Tachwedd 24, 2010

Ganwyd Gwyneth yng Nghaergybi, Ynys Môn ac fe dyfodd i fyny ym mhentref bychan Porth-y-felin, lle datblygodd ei diddordeb mewn peintio pan oedd yn ifanc iawn.

Mae bellach yn byw yn Stryd y Newry gyda'i gwr Dennis a'u daeargi, Buster. Mae'n mwynhau cerdded bob dydd gyda Buster ar draeth y Newry a bydd, bob amser, yn cario llyfr sgetsio gyda hi am syniadau ac ysbrydoliaeth newydd.

Er mai peintio dyfrliwiau yw arbenigedd Gwyneth, mae'n mwynhau gweithio mewn sawl cyfrwng. Arlunydd wedi ei dysgu ei hun ydi Gwyneth, ac mae'r diddordeb mawr sydd wedi'i ddangos yn ei gwaith wedi golygu bod yr hyn oedd yn arfer bod yn hobi pleserus iddi yn awr yn cymryd y rhan fwyaf o'i hamser yn gwneud gwaith i arddangosfeydd a gwaith comisiwn.

Mae ei lluniau i'w gweld ym mhob rhan o'r byd ac mewn nifer fawr o gasgliadau preifat.